

Llinell adrodd

Cwestiynau cyffredin

Beth yw Llinell Adrodd?

A: Mae Llinell Adrodd SAYH wedi cael ei sefydlu'n benodol fel llinell chwythu'r chwiban i alluogi swyddogion heddlu neu aelodau o staff yr heddlu i adrodd am bryderon ynghylch camwedd neu gamymddwyn sy'n codi yn y gweithle. Gall yr adroddiadau hyn ddatgelu bod trosedd wedi'i chyflawni neu lle mae tystiolaeth o gamymddwyn a fyddai'n cyfiawnhau dwyn achos disgyblu.

Beth yw "Chwythu'r Chwiban?"

A: Pan fydd rhywun yn chwythu'r chwiban, mae'n lleisio pryder am berygl neu anghyfreithlondeb sy'n effeithio ar eraill (e.e. rhai o'r cyhoedd, gweithwyr eraill neu staff). Nid oes angen i'r unigolyn sy'n chwythu'r chwiban gael ei effeithio'n uniongyrchol, yn bersonol gan y camwedd, perygl neu anghyfreithlondeb. Yn syml, mae chwythwr chwiban yn ceisio rhybuddio eraill ac nid oes ganddo fuddiant personol o reidrwydd yng nghanlyniad unrhyw ymchwiliad i'w bryderon. Mae'n rhaid i'r chwythwr chwiban gredu'n rhesymol bod yr wybodaeth y mae'n ei rhoi neu'r honiad y mae'n ei wneud yn sylweddol wir, ond nid yw'n ofynnol iddo brofi'r camwedd er mwyn i'w ddatgeliad gael ei ddiogelu'n gyfreithiol. Mae ef neu hi yn negesydd sy'n mynegi pryder fel y gall eraill fynd i'r afael ag ef.

Oes gan chwythwyr chwiban amddiffyniad cyfreithiol?

A: Mae bron pob gweithiwr yn y DU yn cael ei ddiogelu gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (PIDA) gan gynnwys swyddogion heddlu a staff heddlu. Mae PIDA yn rhoi dewis arall diogel i weithwyr yn y DU yn lle distawrwydd. Mae'n galluogi gweithwyr i godi pryderon am ddrwgweithredu mewn modd cyfrifol.

Mae PIDA yn eich amddiffyn os ydych yn codi pryder am ddrwgweithredu yn fewnol er mwyn sicrhau, os caiff pryder ei godi, y gellir mynd i'r afael ag ef a chywiro unrhyw ddrwgweithredu.

Pan fydd swyddog yn 'chwythu'r chwiban' am swyddog arall, gallant wneud hynny i SAYH sy'n 'gorff rhagnodedig' (o dan ddarpariaeth Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996). Bydd SAYH yn gwneud cofnod o'r manylion a ddarparwyd y gellir eu defnyddio gan y swyddog neu aelod o staff o dan PIDA, pe bai'r mater yn mynd i dribiwnlys cyflogaeth. Nid yw cofnodi'r manylion hyn o reidrwydd yn golygu y bydd SAYH yn ymchwilio i'r gŵyn.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cwyn a chwythu'r chwiban?

A: Chwythu'r chwiban yw pan fyddwch chi'n lleisio pryder am rywbeth sy'n digwydd o fewn yr heddlu rydych chi'n teimlo sy'n anghywir. Mae amddiffyniadau datgelu er budd y cyhoedd yn berthnasol pan fydd person yn lleisio pryderon am:

- Droseddoldeb posibl
- Methu â chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol
- Camweinyddiadau cyfiawnder
- Peryglon i iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn
- Difrod amgylcheddol
- Ymdrechion i guddio unrhyw un o'r uchod

Os ydych chi'n chwythu'r chwiban nid oes angen i chi fod â diddordeb personol na chael eich effeithio'n uniongyrchol gan y mater. Efallai eich bod yn negesydd yn mynegi pryder yn unig.

Os ydych chi wedi cael eich trin yn wael yn bersonol, efallai y byddwch am wneud cwyn. Gallai'r driniaeth wael hon gynnwys torri eich hawliau cyflogaeth neu fwlio yr ydych am wneud iawn amdano. Dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig y gall personél yr heddlu wneud cwynion o dan y PRA.

Mae gan yr Heddlu eu trefn gwyno eu hunain ar gyfer cwynion yn ymwneud â phersonél megis dyrchafiadau, pensiynau, dyrannu gwaith, oriau gwaith neu ddisgyblaeth. Dylid cyflwyno'r cwynion hyn i'r heddlu yn uniongyrchol gan ddefnyddio eu gweithdrefnau gwyno eu hunain gydag arweiniad gan gynrychiolydd Ffederasiwn neu Undeb. Nid oes gan SAYH gylch gorchwyl na goruchwyliaeth dros y materion hyn.

Sut fydd gwybodaeth a ddatgelir drwy'r Llinell Adrodd yn cael ei ddefnyddio?

A: Bydd pob cyswllt a wneir i Llinell Adroddiad SAYH yn cael ei gofnodi, a manylion yn cael eu hychwanegu at ein cofrestr yn unol â'n rhwymedigaeth o dan PIDA, ar gyfer chwythu'r chwiban. Os byddwch yn ffonio ein Llinell Adrodd gofynnir i chi gyflwyno adroddiadau o gamwedd yn ysgrifenedig. Gellir gwneud addasiadau rhesymol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 lle bo angen os na ellir cyflwyno cwyn yn ysgrifenedig.

Bydd yr holl wybodaeth a drosglwyddir i ni ar y llinell chwythu'r chwiban (Llinell Adrodd) yn ddienw neu'n ysgrifenedig yn cael ei hasesu gan dîm Llinell Adrodd ac uned gudd-wybodaeth SAYH lle mae'n briodol.

Os penderfynir y dylid anfon yr wybodaeth ymlaen at yr heddlu dan sylw byddwn ond yn gwneud hynny â'ch caniatâd ysgrifenedig os ydych chi wedi rhoi eich manylion i ni, heblaw bod angen rhannu gwybodaeth mewn amgylchiadau eithriadol er budd y cyhoedd. Bydd y manylion hyn hefyd yn cael eu cofnodi ar ein cofrestr at ddiben PIDA.

Ydi swyddogion heddlu mewn swydd yn cael gwneud "cwyn" o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002?

A: Mae'n bosibl y bydd swyddogion heddlu neu aelodau o staff yr heddlu ond yn gallu gwneud cwyn o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 os:

- oeddent oddi ar ddyletswydd ar adeg y digwyddiad honedig, neu
- os yw'r gŵyn yn erbyn unigolyn a oedd ar yr adeg y digwyddodd y digwyddiad honedig o dan gyfarwyddyd a rheolaeth Prif Swyddog gwahanol,
- maent yn mynegi anfodlonrwydd â heddlu heblaw'r heddlu y maent yn gwasanaethu ag ef.

Pryd all swyddog heddlu/aelod o staff wneud cwyn o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002?

A: Os yw swyddog yn gweithio i un heddlu a bod ei gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad swyddog o heddlu gwahanol sy'n gweithio o dan gyfarwyddyd Prif Gwnstabl gwahanol neu os digwyddodd yr ymddygiad y cwynir amdano tra oedd oddi ar ddyletswydd, gallai wneud cwyn o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu (PRA) a byddai ganddo/ganddi yr un hawliau ag un o'r cyhoedd o dan y PRA. Os nad yw'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad, gall fod yn achwynydd os yw'n mynegi anfodlonrwydd ynghylch heddlu gwahanol, nid yr un y maent yn gwasanaethu ag ef.

A all swyddogion heddlu neu aelodau o staff yr heddlu wneud cwyn yn erbyn yr heddlu y maent yn gweithio iddo?

A: Gall swyddogion heddlu a staff heddlu wneud honiadau o ddrwgweithredu ond ni fydd ganddynt yr un hawliau o dan y Ddeddf Diwygio'r Heddlu â rhywun sy'n bodloni'r meini prawf i fod yn achwynydd. Lle mae adroddiadau a wneir i'r Llinell Adrodd yn cynnwys honiadau o droseddoldeb neu dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol, gallant arwain at ymchwiliad. Pan godir pryderon difrifol am ddrwgweithredu drwy'r Llinell Adrodd, bydd tîm y Llinell Adrodd yn ymgynghori ag uned gudd-wybodaeth SAYH ar y camau nesaf y dylid eu cymryd.

Mae'n rhaid ymdrin â chwynion am faterion cyflogaeth neu bersonél yn uniongyrchol trwy weithdrefnau mewnol yr heddlu dylai'r swyddog neu aelod o staff yn cael ei gyflogi gan swyddogion yr heddlu/ aelodau o staff yr heddlu ymgynghori â rheolwyr llinell, yr adran Adnoddau Dynol neu geisio cyngor gan Ffederasiwn yr Heddlu neu Gynrychiolwyr Undeb mewn perthynas â'r materion hyn. Nid oes gan SAYH unrhyw awdurdodaeth dros gwynion cyflogaeth na phersonél.